**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**—**
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
**—**
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Llywodraeth Cymru

Dyddiad | Date: 18 Gorffennaf 2022

Pwnc | Subject: Pwysau ariannol ar ganolfannau hamdden

Annwyl Dawn,

Mae Cymdeithas Chwaraeon Cymru, Ymddiriedolaeth Canolfannau Hamdden Freedom a Community Leisure UK wedi cysylltu â mi ynghylch eu pryderon am y pwysau ariannol ar gyfleusterau chwaraeon a hamdden o ganlyniad i gostau uwch a llai o incwm. Mae'r costau uwch hyn yn deillio o brisiau ynni cynyddol, cynnydd yng nghostau cemegau pwll nofio yn sgil materion gyda'r gadwyn gyflenwi, costau bwyd a diod uwch a'r cynnydd yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Ar yr un pryd, nid yw'r niferoedd o ran cwsmeriaid wedi gwella ers pandemig COVID-19 ac mae'r argyfwng costau byw wedi gadael llawer o aelwydydd â llai o incwm i'w wario, sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o ildio gweithgareddau hamdden er mwyn talu am angenrheidiau.

Rwy'n deall bod cymorth uniongyrchol i ganolfannau hamdden drwy'r gronfa Caledi Llywodraeth Leol wedi dod i ben ddiwedd mis Mawrth 2022 a bod y cymorth hwn wedi'i drosglwyddo i'r grant cynnal refeniw y mae awdurdodau lleol yn ei dderbyn. Fodd bynnag, mae canolfannau hamdden wedi rhoi gwybod nad yw'r cymorth hwn wedi'u cyrraedd, ac maent yn parhau i wynebu caledi ariannol difrifol.

Rwy'n atodi nodyn briffio gan Community Leisure UK a Chymdeithas Chwaraeon Cymru, sy'n nodi'r materion hyn mewn mwy o fanylder. Rwy'n pryderu y bydd llai o bobl yn cael mynediad at gyfleusterau hamdden o ganlyniad i'r pwysau hyn ac y bydd hefyd yn cynyddu'r anghydraddoldeb o ran mynediad at chwaraeon – sef testun ein hymchwiliad i fynediad at chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig. Yn benodol, pyllau nofio sydd fwyaf tebygol o orfod agor am

lai o oriau neu orfod cau, o ganlyniad i'w costau cyffredinol uchel a'u costau sefydlog. Bydd diffyg mynediad at gyfleusterau nofio nid yn unig yn cael effaith andwyol ar berfformiad elitaidd Cymru ond hefyd yn amddifadu llawer o bobl ifanc rhag dysgu un o sgiliau hanfodol bywyd. Mae'n bwysig bod plant yn dysgu nofio mewn amgylchedd diogel dan oruchwyliaeth, yn hytrach nag mewn dŵr agored yn ystod y tywydd cynhesach.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi sylw i'r adran sy'n ymwneud â gofynion i Lywodraeth Cymru yn y ddogfen atodedig yn eich ateb i'r Pwyllgor. A fyddech hefyd cystal â nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau mynediad i ganolfannau hamdden – a phyllau nofio'n enwedig – i sicrhau mynediad cyfartal parhaus, ac i osgoi colli'r cyfleusterau hanfodol hyn yn barhaol?

Yn gywir

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol